Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Llangernyw

Nos Fercher Mehefin 27ain 2018 yng Nghanolfan Bro Cernyw am 7.30yh

1. CROESO AC YMDDIHEURIADAU

1.1 Croesawyd pawb gan yr Is-Gadeirydd Einir Williams (EW)

1.2 Soniwyd o ran monitor ei fod yn ymarfer da i fod yn nodi os oes Cynghorwyr wedi gyrru ei ymddiheuriadau cyn y cyfarfodydd. Penderfynwyd eu nodi fel "Absennol" os na fyddai ymddiheuriad wedi dod i law.

1.3 Presennol: Diane Roberts (DR), R Emlyn Williams (REW), Gwynfor Davies (GD), Ann Vaughan (AV), Clwyd Roberts (CR), Elen H Edwards (EHE)

1.4 Ymddiheuriadau: Gwyn Williams (GW), Garffild Lloyd Lewis (GLL), Geraint Evans (GE)

1.5 Absennol: Gwydion Jones (GJ)

1.6 Cytunodd EHE i gofnodi'r cyfarfod yn absenoldeb Clerc.

2. DATGAN CYSYLLTIAD – OS OES UNRHYW EITEM AR YR AGENDA YN GYSYLLTIEDIG AG AELOD O'R CYNGOR DYLAI DDATGUDDIO DIDDORDEB

2.1 Dim diddordeb i'w ddatgan.

3. COFNODION CYFARFOD MAI 23AIN 2018

3.1 Cynigwyd fel cofnod cywir gan REW a DR yn eilio. Pawb yn gytûn.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

Eitem 4

4.1 Swydd y Clerc - Dylai fod hysbyseb swydd y Clerc fod yn dangos 8 awr (nid 5 fel y dangosir yn y Gadlas). Angen diwygio hwn os fydd yn cael ei gynnwys eto. Dim diddordeb wedi ei ddangos yn y swydd. **REW**

4.2 Nodi fod cwynion wedi eu derbyn am gamfa a llwybr Twlc,

Llwybr Troed Diffygiol - *Mae llwybr cyhoeddus rhwng Plas Hafodunos a Gerddi Gleision. Mae'r Cyngor Cymuned leol wedi cael cwynion bod camfeydd (stiles) a giatiau a ffensys wedi cael eu difrodi ac o'r herwydd yn anodd cerdded y llwybr. Angen rwy'n i edrych arno.*

Diweddariad:

Vicky Currie, Cyd-gordydd Ardal sydd yn gweithio i adran Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau'r Sir wedi dweud fod arian yn fewnol i dalu am y gwaith a'i fod hefyd wedi son fod posib cael giatiau a deunydd gan y Sir. CW am gysylltu eto a Vicky i ofyn am ganiatâd i fwrw ymlaen hefo'r gwaith ac os yw hyn yn iawn CR am ofyn i Kevin i wneud y gwaith a gyrru hwnnw mewn i'r Cyngor Sir.

5. MATERION FFYRDD AC AMGYLCHEDD

5.1 Cau Bont Tŷ Hir (A548) -y bont wedi ei chau am dair wythnos arall

6. CEISIADAU CYNLLUNIO

6.1 0/45223 Mr Robert Elliott, The Old Shooting Ground, Cae Carreg, Trofarth.
Datblygiad cabannau gwyliau ac estyniad i adeiladau presennol.
Estyniad i'r dyddiad cychwyn. Dim gwrthwynebiad

6.2 0/45230 Mr M Sherrat, Rhos Mawn, Llangernyw. Addasu adeiladau fferm yn llety gwyliau.
Dim gwrthwynebiad.

6.3 *CBSC wedi gwrthod cais 0/44970 Datblygiad Hamdden yn Esgair Eithin a Pen y Gloddfa.*
Er gwybodaeth.

6.4 Fe soniodd EHE fod e-bost wythnosol yn dod i gyfrif e-bost y Cyngor Cymuned gan Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) sydd yn rhestru pob cais cynllunio sydd i mewn gan y Sir. Rhaid pori drwy'r rhestr i ddod o hyd i geisiadau lleol. Mynegodd DR ddiddordeb mewn gweld y rhestr yn rheolaidd. EHE i yrru'r e-bost ymlaen iddi yn rheolaidd. Bydd y ceisiadau lleol unigol yn dal i gael ei gyrru ymlaen i CR.

7. ADRODDIAD GAN Y CADEIRYDD

Gan nad oedd y Cadeirydd yn bresennol fe ddarllenodd yr Is-Gadeirydd yr adroddiad.

Adroddiad y Cadeirydd (GW)

Hoffwn i ddiolch i bawb am eu cymorth yn ystod fy mlwyddyn fel Cadeirydd Cyngor Cymuned Llangernyw. Mae dipyn o newid wedi bod yn ystod y flwyddyn yma o ran aelodau'r Cyngor.

Ian Griffiths, Ifor Edwards a Gerwyn Davies yn ymddeol fel aelodau o'r Cyngor Cymuned, ac roedden ni'n croesawu dau aelod newydd i gynrychioli ward Llangernyw sef Clwyd Roberts a Gerallt Evans.

Y newid mwyaf oedd inni golli'r clerc sef Elwen Owen. Mae'r Cyngor heb glerc ers yn agos i hanner blwyddyn bellach, ac ers dyrannu'r swyddogaethau rhwng y Cynghorwyr rydym wedi cael profi gymaint o waith roedd Elwen yn ymgymryd ag o. Roedd Elwen wedi rhoi 30 mlynedd o wasanaeth diflino i'r Cyngor ac mae ein diolch yn fawr iddi.

Unwaith eto diolch yn fawr i bawb am eu cymorth i mi fel Cadeirydd, ac am eu cefnogaeth o'r Cyngor a Bro Cernyw yn gyfan.

8. ETHOL CADEIRYDD

8.1 Cynigwyd EW fel Cadeirydd gan DR a phawb yn eilio. Derbyniodd EW y swydd.

9. ETHOL IS-GADEIRYDD

9.1 Cynigwyd CR fel is-Gadeirydd gan AV a phawb yn eilio. Derbyniodd CR y swydd.

10. ETHOL / CADARNHAU AELODAU'R IS-BWYLLGORAU

10.1 Is-Bwyllgor Mynwentydd - REW, CR, GE a AV
10.2 Is-Bwyllgor Llwybrau – EW, GJ a CR
10.3 Is Bwyllgor Cylchlythyr - EHE, GW, REW a DR

11. ETHOL / CADARNHAU AELODAU AR BWYLLGORAU ALLANNOL

11.1 Pwyllgor y Cwm – Cadeirydd – EW
11.2 Llywodraethwyr Ysgol Bro Cernyw – GW
11.3 Pwyllgor y Ganolfan – CR a EW (Sedd Cadeirydd)
11.4 Un Llais Cymru – DR ac REW

12. ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR MYNWENTYDD

12.1 Rhoddodd CR adroddiad o'r Pwyllgor Mynwentydd diwethaf. (Mae cofnodion llawn o'r Pwyllgor ar gael arwahan.)

- 3 yn bresennol. REW, AV a CR
- Wedi mynd dros y rheolau claddu. Angen ei diwygio. Ychwanegu dim codi tal ar gladdu plentyn dan 16eg oed. Copi i ddod i'r Cyngor Cymuned Llawn i'w cymeradwyo.
- Costau claddu - aros tan 2019 cyn edrych arnynt gan mai pob dwy flynedd mae hyn yn digwydd ac Ebrill 2017 edrychwyd arnyn nhw ddiwethaf.

12.2 Giât y fynwent ddim wedi ei thrwsio er wedi gofyn i G Evans ac wedi cael pris o £60.00. CR am gysylltu â G Evans eto ar fyrder.

12.3 Arwyddion -AV wedi cael amcan bris ar gyfer 3 arwydd - £12.00 yr un & TAW.

- Dim Parcio – angen mynediad / No Parking – access required
- Dim rithoedd na phlastig / No wreaths or plastic
- Blodau a gwellt yn unig / Flowers and grass only.

AV i fwrw ymlaen i'w harchebu.

13. MATERION ARIANNOL

13.1 Mantolen cyfrif banc y Cyngor Cymuned

Problemau hefo trio newid y mandad ond mae GD am fynd yn ôl i'r banc i drio sortio hyn. Angen gwneud hwn ar fyrder ond angen atgoffa ein bod wedi cael cadarnhad gan Un Llais ei fod yn iawn i barhau i dalu hyd nes bod y Mandad wedi ei sortio. Fe fydd GD yn talu'r biliau sydd yn aros am daliad.

13.2 Archwiliad Blynyddol y Cyfrifon

Derbyniwyd y cyfrifon 2017/18 fel cofnod cywir o sefyllfa ariannol y Cyngor Cymuned.

Mae Mrs Gwenda Cooper ar ei gwyliau tan wythnos nesaf. Unwaith y bydda nhw wedi ei archwilio yna fe gant ei gyrru ymlaen i BDO (yr Archwilwyr).

13.3 DR am ddiweddaru'r gwariant ar gyfer y cyfarfod nesaf. EHE i yrru'r daflen Cyllid i DR.

14. PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL _ SAFBWYNT AELODAU CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW

Cadeirydd yn crybwyll bod datganiad ar bapur yn cael ei baratoi i ddatgan sut mae pob aelod yn teimlo ynglyn a'r cydnabyddiaeth ariannol. EW am baratoi datganiad ar gyfer y cyfarfod nesaf iw arwyddo gan pob aelod.

15. SAFLEOEDD LLEOL ANGEN SYLW

15.1 Adeiladau'r hen ofaint, Llangernyw – perygl i'r cyhoedd.

Aelod o'r Cyngor Cymuned wedi codi'r maer. Mae rhybudd mewn lle bod angen gwneud y gwaith o fewn 5 mlynedd ond mae'n debygol bod y 5 mlynedd yn dirwyn i ben yn fuan, Angen mynd ar mater gerbron y Sir. EHE i'w basio ymlaen i Cyng. GLL.

15.2 Tu ôl i'r arhosfa bws gyferbyn a'r Siop,

Cerrig wedi disgyn tu ôl i bwmp dwr y Llan - wal wedi malu. CR am fynd i edrych ar y gwaith a dechrau sgyrsiau hefo'r contractwr a fu yn gweithio yn Llys Alaw.

15.3 Er gwybodaeth - Dogfennau Cofrestru Tir mynwent Gwytherin

Dydi'r dogfennau a dderbyniwyd ddim yn gywir. REW yn mynd i yrru nhw nol i'r Twrne.

16. GOHEBIAETH

16.1 CVSC Hyfforddiant ar Ymwybyddiaeth o Ddiogelu,

Trafodwyd y pwnc Diogelu (Safeguarding) a penderfynwyd y byddai'n synhwyrol i gael un aelod o'r Cyngor Cymuned sydd yn arbennigo yn y pwnc ag yn mynychu'r hyfforddiant priodol (yn lle bod pawb yn trio mynychu pob dim).

Aethpwyd hefyd ymlaen i drafod y sefyllfa o gwmpas "Disclosure and Barring Service (DBS) Checks". EW i fynd i ymholi'n ymhellach ynglŷn â'r angen.

16.2 Pro Forma Cynghorau Tref a Chymuned - Taliadau i Gynghorwyr.

Dylai bo ni'n gneud nil return. Agenda nesa. Elen i ail yrru'r e-bost i bawb.

17. BILIAU

17.1 D Evans - Torri Mynwentydd - £400 x 2 Doriad Mai a Mehefin

17.2 Un Llais Cymru - £147.00 – Tal Aelodaeth am flwyddyn 2018/19

17.3 BHIB Insurance Brokers - £338.42 – Yswiriant

17.4 Cyfieithu Cymunedol - £76.22 – Cofnodion Ebrill

Wedi pasio yn y cyfarfod diwethaf i dalu'r canlynol:

17.5 Elwen Owen £485.76 ac £350 am Gronfa Bro Cernyw

17.6 Ann Vaughan - £23.90 – Blodau i'r tybiau

Cronfa Bro Cernyw

17.7 Cafwyd cais gan Cymdeithas Chwaraeon Llangernyw am £500 llynedd ond rŵan ma nhw wedi dod ai gwaith papur gerbron. Angen ail wneud siec ar ei cyfer. GD i drafod hefo Elwen Owen.

17.8 Trafodwyd tybed fyddai Elwen Owen yn parhau i weinyddu Cronfa Bro Cernyw. EW i ymholi.

18. MATERION LLEOL

18.1 Diolchwyd i DR am ddyfrio'r tybiau Blodau yn Llangernyw yn ddyddiol ag hefyd am lanhau'r ddau Arhosfa'n Bws yn y Llan.

18.2 Mae llawer o Clymlys Siapeneaidd (Japanese Knotweed) neu Gwenyn y Dial o gwmpas Llangernyw sydd yn chwyn sy'n ymledu yn gyflym. Mae'n anodd iawn cael gwared ohono â llaw neu â chemegau ac mae deddfwriaeth newydd bellach yn cwmpasu ei reolaeth. Os yw'n deillio ar dir amaethyddol yna mae'n gyfrifoldeb ar berchennog y tir ei reoli. Mae'r Cynghorydd Sir yn ymwybodol o'r broblem ac mae'r mater wedi godi gyda CBSC.

18.3 Mae nifer o arwyddion ffyrdd yn yr ardal wedi eu cuddio gan wrychoedd. AV wedi cysylltu ag Emyr Jones o adran Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau'r Sir. AV am ddilyn o fynnu eto.

18.4 Ffordd o Gosen am Maesol - tyllau yn y ffordd. GD am reportio nhw i Cyng. Garffild.

18.5 Byrddau hysbysebu. Nodwyd bod angen tacluso ac ail-staenio'r byrddau hysbysebu. Roedd CR wedi son wrth Kevin ac ar yr un pryd mae AV wedi holi Bob Tŷ Capel. Gofynnwyd felly i CR gysylltu ag AV unwaith y bydd wedi cael cadarnhad (neu beidio) gan Kevin ag fe gaiff AV wedyn gysylltu â Bob.

18.6 Rhywbeth wed bachu'r bont rhwng Y Bwthyn a chroesffordd Cornwal Isaf yng Ngwytherin. EW am ei reportio.

18.7 Angen codi hefo Arfon o gwmni Creadur ynglŷn â rhoi'r Agenda ar wefan y Cyngor Cymuned cyn y cyfarfodydd. EW am wneud hyn

18.8 DR am roi'r Cofnodion yn yr Arhosfan Bws yn Llangernyw, REW am fod yn gyfrifol am Wytherin a GW am Pandy Tudur. Rhain i'w rhoi wedi i'r cofnodion gael eu cymeradwyo.

19. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Nos Fercher 1af o Awst 2018. Lleoliad – Pandy Tudur.

Cofnodion gan Elen Edwards - 27ain o Fehefin 2018

Pwyntiau Gweithredu:

4.1 (tudalen 1) Swydd y Clerc - Dylai fod hysbyseb swydd y Clerc fod yn dangos 8 awr (nid 5 fel y dangosir yn y Gadlas). Angen diwygio hwn os fydd yn cael ei gynnwys eto. **REW**

4.2 (tudalen 1) Cwynion wedi eu derbyn am y llwybr cyhoeddus rhwng Plas Hafodunos a Gerddi Gleision. CR am gysylltu eto a Vicky i ofyn am ganiatâd i fwrw ymlaen hefo'r gwaith ac os yw hyn yn iawn **CR** am ofyn i Kevin i wneud y gwaith a gyrru hwnnw mewn i'r Cyngor Sir.

6.4 (tudalen 2) **EHE** i yrru e-byst ynglŷn â Cheisiadau Cynllunio ymlaen i DR yn rheolaidd.

12.1 (tudalen 3) Copi o'r rheolau Claddu diwygiedig i ddod i'r Cyngor Cymuned Llawn i'w cymeradwyo.- **Is Bwyllgor Mynwentydd**

12. 1(tudalen 3) Costau claddu –angen edrych ar y costau yn 2019. **Is Bwyllgor Mynwentydd**

12.2 (tudalen 3) Giât y fynwent ddim wedi ei thrwsio er wedi gofyn i G Evans ac wedi cael pris o £60.00. **CR** am gysylltu â G Evans eto ar fyrder.

12.3 (tudalen 3) Arwyddion - **AV** i fwrw ymlaen i'w harchebu.

13.3 (tudalen 3) **EHE** i yrru'r daflen Cyllid i DR.

14. (tudalen 3) **EW** am baratoi datganiad ar gyfer y cyfarfod nesaf iw arwyddo gan bob aelod.

15.1 (tudalen 3) Adeiladau'r hen ofaint, Llangernyw – perygl i'r cyhoedd. **EHE** i'w basio ymlaen i Cyng. GLL.

15.2 (tudalen 3) Tu ôl i'r arhosfa bws gyferbyn a'r Siop. **CR** am fynd i edrych ar y gwaith a dechrau sgyrsiau hefo'r contractwr a fu yn gweithio yn Llys Alaw.

15.3 (tudalen 3) Dogfennau Cofrestru Tir mynwent Gwytherin. **REW** yn mynd i yrru nhwnol i'r Twrne.

16.1 (tudalen 3) CVSC Hyfforddiant ar Ymwybyddiaeth o Ddiogelu - Aethpwyd hefyd ymlaen i drafod y sefyllfa o gwmpas "Disclosure and Barring Service (DBS) Checks". **EW** i fynd i ymholi'n ymhellach ynglŷn â'r angen.

16.2 (tudalen 3) Pro Forma Cynghorau Tref a Chymuned - Taliadau i Gynghorwyr. Dylai bo ni'n gneud nil return. **EHE** i ail yrru'r e-bost i bawb.

17.7 (tudalen 3) Cafwyd cais gan Cymdeithas Chwaraeon Llangernyw am £500 llynedd ond rŵan ma nhw wedi dod ai gwaith papur gerbron. Angen ail wneud siec ar ei chyfer. **GD** i drafod hefo Elwen Owen.

17.8 (tudalen 4) Trafodwyd tybed fyddai Elwen Owen yn parhau i weinyddu Cronfa Bro Cernyw. **EW** i ymholi.

18.3 (tudalen 4) Mae nifer o arwyddion ffyrdd yn yr ardal wedi eu cuddio gan wrychoedd. AV wedi cysylltu ag Emyr Jones o adran Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau'r Sir. **AV** am ddilyn o fynnu eto.

18.4 (tudalen 4) Ffordd o Gosen am Maesol - tyllau yn y ffordd. **GD** am reportio nhw i Cyng. Garffild.

18.5 (tudalen 4) Byrddau hysbysebu. Gofynwyd felly i **CR** gysylltu ag AV unwaith y bydd wedi cael cadarnhad (neu beidio) gan Kevin ag fe gaiff AV wedyn gysylltu â Bob.

18.6 (tudalen 4) Rhywbeth wed bachu'r bont rhwng Y Bwthyn a chroesffordd Cornwal Isa yng Ngwytherin. **EW** am ei reportio.

18.7 (tudalen 4) Angen codi hefo Arfon o gwmni Creadur ynglŷn â rhoi'r Agenda ar wefan y Cyngor Cymuned cyn y cyfarfodydd. **EW** am wneud hyn

18.8 (tudalen 4) **DR** am roi'r Cofnodion yn yr Arhosfan Bws yn Llangernyw, **REW** am fod yn gyfrifol am Wytherin a **GW** am Pandy Tudur. Rhain i'w rhoi wedi i'r cofnodion gael eu cymeradwyo.

Derbyniwyd yn gywir -

Arwyddo ..... Dyddiad 1/8/2018